# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gwasanaethau Byw â Chymorth a Chymorth Cymunedol Mirus – Rhanbarth Gwent**

**Cleeve House**
**Cilgant Lambourne**
**Caerdydd**
**CF14 5GP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

02 Tachwedd 2020

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Gwasanaethau Byw â Chymorth a Chymorth Cymunedol Mirus – Rhanbarth Bae'r Gorllewin

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Mirus Wales |
| Lleoliadau cofrestredig | Gwasanaeth cymorth cartref yw hwn |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd yr arolygiad cyntaf a gynhaliwyd o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld ac yn nodi ei fwriad i ddiwallu anghenion Cymraeg a diwylliant Cymreig pobl a allai fod am ddefnyddio'r gwasanaeth. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Crynodeb

Gwasanaeth cymorth cartref sy'n gweithredu yn rhanbarth Gwent yw Gwasanaethau Byw â Chymorth a Chymorth Cymunedol Mirus Gwent. Mirus Wales sy'n berchen ar y gwasanaeth. Christopher Paul yw'r Unigolyn Cyfrifol sy'n goruchwylio gweithrediadau strategol y gwasanaeth. Mae rheolwr ar waith i oruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg o ddydd i ddydd.

Mae'r bobl yn derbyn gofal a chymorth o safon dda. Cânt eu galluogi i gyflawni eu nodau personol mewn gwasanaeth sy'n eu gwerthfawrogi fel unigolion. Caiff cynnydd y bobl ei werthfawrogi ac mae'r gweithwyr gofal yn derbyn canllawiau ysgrifenedig ar sut i roi gofal a chymorth. Mae angen i rywfaint o'r dogfennau fod yn fwy cadarn. Mae mesurau ar waith i hyrwyddo arferion diogel. Mae'r rheolwyr yn monitro digwyddiadau ac arferion y gweithwyr gofal, ac yn cymryd camau gweithredu lle y bo'n briodol i wella diogelwch y bobl. Mae angen i'r darparwr sicrhau bod Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn cael ei hysbysu'n brydlon o ddigwyddiadau perthnasol. Caiff y gwasanaeth ei ddarparu yn unol â'r datganiad o ddiben, a ategir gan bolisïau ac archwiliadau. Mae'r gwasanaeth yn recriwtio, goruchwylio ac yn hyfforddi ei aelodau o staff yn briodol ar y cyfan. Mae proses sicrhau ansawdd yn helpu'r gwasanaeth i werthuso, dysgu a datblygu ond dylid dangos tystiolaeth o'r gweithgarwch ymgysylltu â phob unigolyn sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth yn fwy eglur.

## Llesiant

Mae'r bobl yn derbyn gofal a chymorth o safon dda. Mae'r adborth gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r cynrychiolwyr am y gweithwyr gofal yn gadarnhaol. Caiff annibyniaeth y bobl ei hyrwyddo mewn gwasanaeth sy'n monitro ac yn gwerthuso eu cynnydd yn weithredol. Mae cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau perthnasol i weithwyr gofal eu dilyn, ond mae angen gwella un agwedd arnynt. Mae'r darparwr yn mynd i'r afael â'r mater hwn.  Er bod gwybodaeth ysgrifenedig berthnasol ar gael i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, mae angen ei diweddaru.

Mae mesurau ar waith i hyrwyddo arferion gweithio diogel a chânt eu hategu gan bolisïau perthnasol. Mae cofnodion o'r meddyginiaethau a roddir i'r bobl a gaiff eu harchwilio. Gellir cwblhau'r cofnodion meddyginiaeth a'r cofnodion gofal dyddiol yn fwy cyson. Mae gan y gweithwyr gofal fynediad i gyfarpar diogelu personol ac mae'r staff yn derbyn yr hyfforddiant perthnasol. Mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac sy'n gweithio yno yn gwybod at bwy y dylent gyflwyno pryderon. Mae'r gweithwyr gofal yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu.

Caiff y gwasanaeth ei redeg yn briodol, ei gefnogi gan strwythur rheoli, polisïau a systemau archwilio a sicrhau ansawdd. Gwnaethom drafod un agwedd ar y trefniadau rheoli gyda'r Unigolyn Cyfrifol a rhoddwyd sicrwydd i ni fod y mater yn cael ei adolygu. Mae proses recriwtio drylwyr yn sicrhau bod y bobl a gaiff eu cyflogi yn addas i weithio gydag unigolion sy'n agored i niwed. Ategir hyn gan raglen sefydlu, hyfforddi a goruchwylio y mae'r goruchwylwyr yn cynnal trosolwg ohoni. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr gofal yn derbyn cymorth a goruchwyliaeth sy'n briodol i'w rolau. Gallai hyn fod yn fwy cyson i rai ohonynt gan ystyried eu hamgylchiadau unigol.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymgysylltu â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, cynrychiolwyr a gweithwyr gofal at ddibenion sicrhau ansawdd. Dylid dangos yr enghreifftiau hyn o weithgarwch ymgysylltu'n fwy aml. Mae adolygiadau o ansawdd y gofal yn dangos y cynhelir trosolwg effeithiol o berfformiad y gwasanaeth, gan gynnwys nodi meysydd i'w datblygu. Er bod y trefniadau sicrhau ansawdd yn gynhwysfawr ar y cyfan, dylai'r darparwr sicrhau bod tystiolaeth glir o'r gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid.

## Gofal a Datblygiad

Caiff y bobl eu galluogi i gyflawni eu canlyniadau personol. Gwnaeth y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r cynrychiolwyr y gwnaethom siarad â nhw roi adborth da i ni am safon y gofal a'r cymorth. Roedd yn dangos bod y bobl yn hapus a'u bod yn cael profiadau da. Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel ac yn teimlo eu bod yn bwysig. Mae ganddynt ddewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r dulliau cyfathrebu rhwng y gweithwyr gofal a'r cynrychiolwyr yn dda. Mae'r gwasanaeth yn dangos ymrwymiad i helpu'r bobl gyflawni eu hanghenion o ran y Gymraeg. Mae gwybodaeth ysgrifenedig y gwasanaeth yn dangos sut y gallant gyflawni hyn. Mae'r gwasanaeth yn cydweithio â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i hyrwyddo canlyniadau da i'r bobl.

Caiff y gofal a'r cymorth eu darparu'n unol â chynlluniau personol y bobl ar y cyfan. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod y cynlluniau personol yn hygyrch ac yn glir. Gofynnir am ddymuniadau a dewisiadau personol y bobl a chânt eu cofnodi'n dda. Mae hyn yn dangos eu bod yn cyfrannu at y ffordd yr hoffent dderbyn eu gwasanaeth. Mae'r cymorth yn canolbwyntio ar alluogi pobl i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol, wrth i ymddygiadau ostwng a allai niweidio eu hunain a/neu eraill. Mae'r gweithwyr gofal yn derbyn hyfforddiant ar helpu pobl i reoli eu hymddygiadau. Ategir hyn gan bolisi perthnasol. Gwnaethom ystyried y byddai'n ddefnyddiol i bobl pe bai'n cael ei grynhoi yn y datganiad o ddiben o bosibl. Mae'r staff yn wybodus ynghylch y bobl y maent yn gofalu amdanynt. Er bod cofnodion dyddiol yn dangos bod anghenion gofal a chymorth y bobl yn cael eu diwallu; dylid eu cwblhau'n fwy cyson.

Er bod tystiolaeth o'r gweithgarwch ymgysylltu â phobl a'u cynrychiolwyr wrth adolygu eu cynnydd; gellir trefnu'r dogfennau'n well. Nod hyn yw sicrhau bod cynlluniau personol a dogfennau cysylltiedig (megis asesiadau risg) yn cael eu hadolygu ar y cyd gyda'r bobl gywir. Mae polisi cyllid ar waith a chaiff archwiliadau eu cwblhau'n rheolaidd ar gyfer y bobl sy'n derbyn cymorth i reoli eu harian. Mae angen i'r dogfennau mewn perthynas â hyn fod yn fwy cadarn er mwyn sicrhau bod ffiniau proffesiynol yn glir a bod cynlluniau personol yn cyd-fynd â chynlluniau gofal yr awdurdod lleoli.

Mae mesurau ar waith i leihau risgiau'n ymwneud â meddyginiaethau a chroes-heintio. Mae polisïau'n ymwneud â meddyginiaethau a rheoli heintiau ar waith. Cynhelir cofnod o'r meddyginiaethau a roddir a chaiff gwiriadau dyddiol o stoc eu cwblhau. Dylid cofnodi'r rheswm dros roi meddyginiaethau PRN (yn ôl yr angen) yn fwy cyson. Er bod canllawiau i'r gweithwyr gofal am ddefnyddio meddyginiaethau PRN ar waith yn y rhan fwyaf o achosion; dylent fod yn fwy cyson. Cawsom sicrwydd gan y darparwr yr aed i'r afael â'r mater hwn. Mae'r gwasanaeth yn cymryd y camau priodol er mwyn ymateb i ddigwyddiadau, gan ddangos ymrwymiad i ddysgu a gwella ei arferion. Mae'r gweithwyr gofal yn derbyn canllawiau ar ddefnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) yn ddiogel. Mae hyn yn helpu i sicrhau eu bod yn cadw'n ddiogel, yn ogystal â'r bobl y maent yn

gofalu amdanynt. Roedd mesurau rheoli heintiau priodol ar waith yn ystod ein hymweliad. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod ganddynt ddigon o PPE.

Mae mesurau ar waith i ddiogelu’r bobl sy'n agored i niwed. Mae polisïau ar waith mewn perthynas â diogelu, cwyno a chwythu'r chwiban. Mae'r gweithwyr gofal, y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r cynrychiolwyr yn gwybod â phwy y dylent gysylltu i wneud cwyn. Mae tystiolaeth ar gael i ddangos yr adroddir am bryderon yn ymwneud â diogelu ac arferion anfoddhaol gweithwyr gofal ac y gweithredir arnynt yn briodol. Darperir hyfforddiant ar ddiogelu i'r gweithwyr gofal er mwyn helpu i sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth briodol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arwain a Rheoli

Mae nodau ac amcanion y gwasanaeth yn glir. Mae angen adolygu rhywfaint o wybodaeth ysgrifenedig y gwasanaeth er mwyn sicrhau ei bod yn gyfredol. Gwnaethom drafod y trefniadau rheoli gyda'r Unigolyn Cyfrifol ar ôl derbyn adborth gan y gweithwyr gofal. Rhoddwyd sicrwydd i ni eu bod yn cael eu hadolygu a bod mesurau ar waith i reoli unrhyw achosion o wrthdaro buddiannau posibl. Caiff y cofnodion yn ymwneud â materion disgyblu'r staff eu cynnal a'u goruchwylio gan y rheolwyr. Cynhelir trosolwg o agweddau ar y gwasanaeth, megis trosiant y gweithwyr, recriwtio, digwyddiadau, cwynion a chanmoliaeth hefyd. Mae angen i'r darparwr sicrhau y caiff AGC ei hysbysu o ddigwyddiadau perthnasol yn brydlon. Mae polisïau a gweithdrefnau allweddol ar waith i gefnogi'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei weithredu.

Caiff y bobl eu diogelu gan system recriwtio drylwyr. Mae dogfennau mewn perthynas â'r bobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth ar gael ac wedi'u cwblhau i safon foddhaol. Gwnaethom drafod bod angen sicrhau y caiff hanes cyflogaeth parhaus eu cofnodi ar gyfer pob aelod o'r staff. Ar y cyfan, mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod ei staff wedi'u fetio'n addas er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i roi gofal a chymorth i bobl sy'n agored i niwed.

Mae mesurau ar waith i fonitro a datblygu'r gweithwyr gofal. Mae polisi hyfforddi a datblygu ar waith. Caiff y rhan fwyaf o'r staff eu goruchwylio'n briodol ac maent yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda yn eu rolau. Dylai hyn fod yn fwy cyson i rai a dylai'r darparwr fod yn ymwybodol o amgylchiadau lle y gall fod angen cymorth ychwanegol a/neu oruchwyliaeth ar weithwyr gofal. Mae tystiolaeth o sefydlu'r staff yn briodol a darparu hyfforddiant perthnasol, gan gynnwys rhoi cymorth i'r gweithwyr gofal ar eu cofrestriad proffesiynol. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr gofal wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf a chaiff ei oruchwylio gan y rheolwyr. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn derbyn digon o hyfforddiant i'w rolau. Mae'r gweithwyr gofal yn derbyn rhagor o gymorth ar ffurf cyfarfodydd tîm.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae trefniadau monitro ansawdd yn helpu'r gwasanaeth i sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn cael ei redeg yn dda. Mae tystiolaeth o weithgarwch ymgysylltu rhwng yr Unigolyn Cyfrifol ac unigolion a'r gweithwyr gofal. Dylid cofnodi tystiolaeth o weithgarwch ymgysylltu sy'n cael ei gynnal yn fwy rheolaidd. Ar y cyfan, mae'r trefniadau monitro ansawdd yn gynhwysfawr ac maent yn dangos bod perfformiad y gwasanaeth a'i nodau o ran gwella yn cael eu goruchwylio'n dda. Er bod tystiolaeth o ymgysylltu ag unigolion a gweithwyr gofal, dylai'r darparwr sicrhau bod mewnbwn gan randdeiliaid (er enghraifft, comisiynwyr y cyngor lleol) yn cael ei gofnodi'n glir.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Meysydd i'w gwella, a'r camau a gymerwyd yn ystod yr arolygiad blaenorol | | |
|---|---|---|
| Hwn oedd yr arolygiad cyntaf a gynhaliwyd o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. | | |

| Meysydd lle mae angen gwneud gwelliannau ar unwaith | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd y mae angen eu gwella | |
|---|---|
| (1) Dylid rhoi gwybod am ddigwyddiadau y gellir cyflwyno adroddiadau amdanynt i AGC ar unwaith. | Rheoliad 60 |
| (2) Dylai cynllun personol y darparwr gyd-fynd â chynllun Gofal a Chymorth yr Awdurdod Lleol yn ogystal ag unrhyw asesiadau proffesiynol. | Rheoliad 15 (7)(a) a (c) |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfiaeth y tro hwn. Mae hyn am nad oedd unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol na chanlyniadau gwael i'r plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r darparwr cofrestredig gymryd camau i unioni'r meysydd hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf

**Dyddiad Cyhoeddi**: 14 Rhagfyr 2020

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi